

## CAIS I GOFRESTRU SEFYDLIADAU EIDDO BUSNES BWYD

(Rheoliad (CE) Rhif 852/2004 ar Hylendid Bwyd, Erthygl 6(2))

Mae'n rhaid i weithredwyr busnesau bwyd lenwi'r ffurflen hon ar gyfer sefydliadau bwyd newydd a'i ddychwelyd i'r awdurdod bwyd priodol 28 diwrnod cyn dechrau gweithrediadau bwyd. Yn dibynnu ar y gweithgarwch, mae gofyn i rai sefydliadau bwyd fod wedi 'u cymeradwyo yn hytrach na'u cofrestru. Os nad ydych yn sicr pa agwedd o'ch gweithgarwch bwyd y dylid ei gymeradwyo, cysylltwch ag Adain Amgylcheddol, Cyngor Sir Ynys Môn, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni, Ynys Môn, LL77 7TW, 01248 752866 i gael canllawiau.

1. **Cyfeiriad y sefydliad** \_\_\_\_\_  
(neu gyfeiriad lle mae'r cerbyd yn cael ei gadw) \_\_\_\_\_ **Côd Post** \_\_\_\_\_

2. **Enw'r busnes bwyd** \_\_\_\_\_ **Rhif Ffôn** \_\_\_\_\_  
(enw masnachol)

3. **Enw llawn y gweithredwr busnes bwyd** \_\_\_\_\_

4. **Cyfeiriad y gweithredwr busnes bwyd** \_\_\_\_\_  
\_\_\_\_\_ **Côd Post** \_\_\_\_\_

**Rhif Ffôn** \_\_\_\_\_ **E-bost** \_\_\_\_\_

5. **Y math o fusnes bwyd** (Ticiwch BOB blwch perthnasol):

Siop Fferm   
Cynhyrchu / prosesu bwyd   
Pacio   
Mewnforio   
Cyfanwerthu / talu a chludo   
Dosbarthu / warws   
Manwerthu   
Bwyty / caffï / bar byrbrydau   
Marchnad   
Lladdwr tymhorol

Bwyty / ffreutur / cegin staff   
Arlwyo   
Ysbyty / cartref preswyl / ysgol   
Gwesty / tafarn / gwesty bach   
Tŷ preifat a ddefnyddir fel busnes bwyd   
Cerbyd e.e. fan hufen iâ   
Stondin farchnad   
Brocer bwyd   
Bwyd parod i'w fwyta allan   
Arall (**rhowch fanylion**): \_\_\_\_\_  
\_\_\_\_\_

6. **Y Math o fusnes:**

Unig fasnachwr   
Partneriaeth   
Cwmni Cyfyngedig   
Arall (**rhowch fanylion**)   
\_\_\_\_\_  
(Os ydych yn Gwmni  
Cyfyngedig, a wnewch chi  
gwblhau 7 isod)

7. **Enw'r Cwmni Cyfyngedig** \_\_\_\_\_ **Rhif y Cwmni** \_\_\_\_\_

**Cyfeiriad Cofrestredig y Swyddfa** \_\_\_\_\_  
\_\_\_\_\_ **Côd Post** \_\_\_\_\_

8. **Nifer y cerbydau neu stondinau sy'n cael eu cadw yn yr eiddo busnes bwyd neu sy'n cael eu defnyddio gan y busnes ar gyfer paratoi, gwerthu neu gludo bwyd:**

5 neu lai     6 – 10     11 – 50     51 a rhagor

9. **Cyflenwad dŵr i'r eiddo busnes bwyd:** (Prif) gyflenwad cyhoeddus     Cyflenwad preifat

10. **Enw llawn y rheolwr/aig os yw'n wahanol i'r gweithredwr** \_\_\_\_\_

11. **Ydy hwn yn fusnes newydd?** \_\_\_\_\_  
Nodwch y dyddiad rydych yn bwriadu agor

12. **Ydy hwn yn fusnes tymhorol?** \_\_\_\_\_  
Nodwch y cyfnod agor bob blwyddyn

13. **Nifer y bobl sy'n cael eu cyflogi yn y busnes bwyd** 0 – 10     11 – 50     51 a rhagor  (Ticiwch un blwch)  
Cyfrwch weithwyr rhan amser (25 awr yr wythnos neu lai)  
fel hanner.

**Llofnod gweithredwr y busnes bwyd** \_\_\_\_\_

**Dyddiad** \_\_\_\_\_

**ENW** \_\_\_\_\_ (**PRIFLYTHRENAU**)

Ar ôl cyflwyno'r ffurflen hon, mae'n rhaid i weithredwyr bwyd roi gwybod am unrhyw newidiadau i'r gweithgarwch uchod o fewn 28 diwrnod i Adain Amgylcheddol, Cyngor Sir Ynys Môn, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni, Ynys Môn, LL77 7TW. Ffôn 01248 752866.

## NODIADAU AR GOFRESTRU EIDDO BWYD

### Cwmpas deddfau bwyd

Mae rheoliadau diogelwch a hylendid bwyd yn berthnasol i fusnesau bwyd ac i weithredwyr busnesau bwyd fel y diffinwyd. Mae “busnes bwyd” yn golygu unrhyw fenter boed am elw ai peidio, a chyhoeddus neu breifat, sy’n gweithredu unrhyw gam cynhyrchu, proses neu ddsbarthu bwyd. Mae “gweithredwr busnes bwyd” yn golygu’r unigolion naturiol neu gyfreithiol, sy’n gyfrifol am sicrhau bod gofynion deddfau bwyd yn cael eu cyflawni yn y busnes bwyd sydd dan eu rheolaeth (Erthygl 3.2 a 3.3 Rheoliad 178/2002). Yn gyffredinol, os yw gweithgarwch unigolion neu sefydliadau cyd-fynd â’r diffiniadau uchod, mae gofyn iddynt gofrestru gyda’r awdurdod cymwys perthnasol, sef yr awdurdod lleol fel arfer.

### Eithriadau

- Gweithgarwch fel paratoi bwyd o bryd i’w gylidd gan unigolion neu grwpiau ar gyfer cynulleidfaoedd neu ar gyfer eu gwerthu mewn digwyddiadau elusennol
- Cynhyrchu cychwynnol ar gyfer defnydd domestig preifat
- Paratoi, trin neu gadw bwyd gartref ar gyfer ei fwyta’n breifat yn y cartref
- Y cynhyrchydd yn cyflenwi nifer bychan o gynhyrchion cychwynnol i’r defnyddiwr trefynol neu i sefydliadau manwerthu lleol, sy’n cyflenwi’r defnyddiwr trefynol yn uniongyrchol
- Canolfannau casglu a thanerdai, sy’n cael eu diffinio fel busnesau bwyd oherwydd eu bod yn trin deunyddiau crai ar gyfer cynhyrchu gelatin neu collagen

Mae’n rhaid i’r gweithgareddau barhau i gydymffurfio â’r gofynion cyfferdinol sy’n berthnasol i roi bwyd nad yw’n ddiogel ar y farchnad, ac sydd wedi ei gynnwys yn Erthygl 14 Rheoliad (CE) 178/2002 fel y gweithredwyd gan y Rheoliadau Bwyd Cyffredinol 2004.

### Cofrestru

Mae’n rhaid i weithredwyr bwyd gofrestru eu sefydliadau (hynny yw, pob uned ar wahân o’u busnes bwyd, sy’n cynnwys cypyrddau i gadw anifeiliaid hela a chanolfannau casglu) gyda’r awdurdod cymwys perthnasol (Erthygl 6(2) Rheoliad 852/2004). Nid yw hyn yn berthnasol i’r sefydliadau hynny sydd eu cymeradwyo’n unig (Erthygl 6(3) Rheoliad 852/2004).

Mae’n rhaid i weithredwyr busnesau bwyd gofrestru eu sefydliad gyda’r awdurdod cymwys perthnasol o leiaf 28 diwrnod cyn dechrau cynhyrchu bwyd. Mae’n rhaid i weithredwyr busnesau bwyd roi manylion llawn am eu gweithgareddau i’r awdurdod cymwys perthnasol wrth gofrestru.

Unwaith y bydd y sefydliad wedi cofrestru, mae’n rhaid i weithredwyr busnesau bwyd sicrhau eu bod yn rhoi gwybod am unrhyw newid i’r manylion a gyflwynwyd, e.e. gweithredwr busnes bwyd newydd neu newidiadau i’r gweithgarwch bwyd, i’r awdurdod cymwys perthnasol (Erthygl 6(2) Rheoliad 852/2004). Dylid rhoi gwybod am hyn cyn gynted a bo modd a heb fod yn fwy na 28 diwrnod fan bellaf ar ôl y newid.

### Sut rwyf yn cofrestru?

Drwy lenwi’r ffurflen hon. Ni ellir gwrthod eich cofrestru ac nid oes unrhyw dâl. Mae’n rhaid anfon y ffurflen gofrestru i’r awdurdod priodol, sef yr awdurdod lleol fel arfer. Petaech yn anfon eich ffurflen i’r cyfeiriad anghywir, ni fyddwch wedi cofrestru nes ei fod wedi derbyn yn y cyfeiriad cywir. Os ydych yn defnyddio adeiladau mewn mwy nag un ardal awdurdod lleol, mae’n rhaid i chi gofrestru gyda phob awdurdod ar wahân.

Mae’n rhaid i chi roi tic ymhob blwch sy’n berthnasol i’ch busnes. Atebwch bob cwestiwn gan nodi pob gwybodaeth a ofynnir amdano. Dylai busnesau tymhorol, sy’n weithredol am gyfnod penodol bob blwyddyn, nodi’r dyddiadau y maent ar agor fel ateb i gwestiwn 12. Os oes gennych unrhyw gwestiynau bydd eich awdurdod lleol yn gallu eich helpu. Mae’n drosedd rhoi gwybodaeth rydych yn gwybod sy’n anghywir.

### Beth sy’n digwydd i’r wybodaeth ar y ffurflen?

Bydd y manylion yn cael ei nodi ar y gofrestr eiddo bwyd ac bydd copi o’r ffurflen yn cael ei gadw mewn ffeil. Bydd y wybodaeth yn cael ei thrin yn unol â Deddf Rhyddid Gwybodaeth a Deddf Diogelu Data.

**Darparwyd y nodiadau hyn fel gwybodaeth yn unig ac ni ddylent gael eu hystyried fel datganiad llawn o’r gyfraith. Mae gwefan yr Asiantaeth Safonau Bwyd [www.food.gov.uk](http://www.food.gov.uk) yn rhoi rhagor o ganllawiau ar hylendid bwyd a deddfwriaeth berthnasol.**